# AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

# WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

# Ffactorau i annog newid dulliau teithio: prif ganlyniadau Mawrth i Awst 2025 (dros dro)

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r chwe mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025-26 (ATCC). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 3,000 o ymatebion gan bobl ledled Cymru. Fe'u cyhoeddir fel ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gwestiynau am newid dulliau teithio. Wrth hyn, rydym yn golygu beth fyddai'n annog ymatebwyr sy'n ddefnyddwyr dulliau teithio penodol a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio i'w defnyddio'n amlach, yn ogystal â'r rhesymau pam mae ymatebwyr yn dewis teithio mewn car.

Am wybodaeth ynghylch sut y gwnaethom ddiffinio defnyddwyr dulliau teithio a phobl nad ydynt yn eu defnyddio, gweler ein dogfen diffiniadau.

Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio rhwng pob dull fel eu bod yn berthnasol ac yn benodol i'r dull teithio hwnnw. Mae rhagor o wybodaeth am yr opsiynau ymateb a ddarparwyd ar gael yn sgript yr holiadur. Gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd y canrannau'n cyfateb i 100%.

Mae ATCC yn arolwg newydd, a'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf i Gymru ers 2012. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Gallai gwahaniaethau fod oherwydd gwahanol ddiffiniadau a ddefnyddir, gwahanol ddulliau arolwg neu wahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio. Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o setiau sampl o fis Mawrth i fis Awst 2025. O'r herwydd, gallant gael eu heffeithio gan batrymau tymhorol mewn ymddygiad teithio. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ansawdd yn ein Hadroddiad Ansawdd.

## Prif bwyntiau

- "Llwybrau sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n well" oedd y ffactor mwyaf cyffredin a fyddai'n annog defnyddwyr i deithio drwy gerdded ac olwynio'n amlach.
- Ymatebodd 50.3% o ddefnyddwyr beiciau y byddai "rhagor o lwybrau i ffwrdd o draffig" yn eu hannog i deithio ar feic yn amlach.
- Byddai 42.0% o ddefnyddwyr bysiau yn cael eu hannog i deithio ar fws yn amlach pe bai "gwybodaeth well am lwybrau, safleoedd bws ac amseroedd gwasanaethau".

- Nododd 59.2% o ddefnyddwyr rheilffyrdd "tocynnau rhatach a symlach" fel ffactor a fyddai'n eu hannog i deithio ar y rheilffordd yn amlach.
- Ymhlith y rhai nad ydynt yn defnyddio'r dulliau teithio hyn, dywedodd dros 30% o'r ymatebwyr wrthym na fyddai'r un o'r opsiynau a restrir yn eu hannog i deithio ar droed, olwynio, beicio, defnyddio'r bws na defnyddio'r trên.

# Ffactorau a fyddai'n annog cerdded ac olwynio

## Pobl sy'n cerdded ac olwynio


- Y ffactor mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog mwy o gerdded ac olwynio oedd "llwybrau sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n well" (37.3%), ac yna "llai o rwystrau ar y llwybr, fel cerbydau wedi'u parcio" (30.5%) a "llwybrau cerdded mwy dymunol" (30.3%).
- Ychydig o wahaniaethau oedd yn ôl rhyw, gyda'r ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd yn ateb mewn ffordd debyg.
- Ymhlith ymatebwyr anabl, "llwybrau wedi'u cynnal a'u cadw'n well" (34.8%) a "llai o rwystrau ar y llwybr, fel cerbydau wedi'u parcio" (34.0%) oedd y dewisiadau mwyaf poblogaidd hefyd. Y trydydd opsiwn a ddewiswyd fwyaf gan ymatebwyr anabl oedd "rhagor o leoedd i stopio a gorffwys" (25.5%), o'i gymharu â dim ond 15.8% gan ymatebwyr nad ydynt yn anabl.

## Pobl nad ydynt yn cerdded nac yn olwynio

- Nododd 31.7% o'r ymatebwyr nad oeddent yn cerdded nac yn olwynio nad oedd yr un o'r ffactorau a restrir yn eu hannog i ddefnyddio'r dull teithio. Dyma'r opsiwn ymateb a ddewiswyd amlaf.
- Nododd 23.2% pellach "nad oeddent yn gallu cerdded nac olwynio fel dull teithio yn amlach".
- Dim ond 14.8% o'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r dulliau teithio hyn a ddewisodd "Llwybrau sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n well", sef y ffactor a ddewiswyd amlaf gan bobl nad ydynt yn cerdded ac yn olwynio fel ffactor a fyddai'n eu hannog i gerdded ac olwynio.

## Beth fyddai'n annog pobl i deithio drwy gerdded ac olwynio

Ffigur 1: Ffactorau a fyddai'n annog pobl sy'n cerdded ac yn olwynio a phobl nad ydynt yn cerdded nac yn olwynio, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar llorweddol yn dangos y ffactorau a fyddai'n annog defnyddwyr y dulliau teithio hyn a'r rhai nad ydynt yn eu defnyddio i gerdded neu olwynio'n amlach. Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr oedd "llwybrau wedi'u cynnal a'u cadw'n well" (37.3%), tra mai'r ymatebion mwyaf cyffredin i bobl nad ydynt yn defnyddio'r dulliau teithio hyn oedd "dim un o'r rhain" (31.7%) a methu â cherdded neu olwynio'n amlach (23.2%).

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Nodweddion sy'n gysylltiedig â theithio'r ymatebwyr

Nodyn 1: Gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd cyfanswm y canrannau yn 100%.

Nodyn 2: Yn seiliedig ar amlder teithio a ddisgrifiwyd gan yr ymatebwyr, nodwyd 2,445 o unigolion fel pobl sy'n cerdded ac olwynio. Nodwyd 630 fel rhai nad ydynt yn defnyddio'r dulliau teithio hyn.

# Ffactorau a fyddai’n annog beicio

## Beicwyr


- Ymhlith defnyddwyr beiciau, dywedodd 50.3% o'r ymatebwyr y byddai “rhagor o lwybrau i ffwrdd o draffig” yn annog defnydd pellach. Dewiswyd “Llwybrau sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n well” gan 38.5% o ddefnyddwyr beiciau, ac yna “cyfleusterau storio beiciau diogel yn y gyrchfan” (24.4%).
- Ychydig o wahaniaethau oedd rhwng y ffactorau a fyddai’n annog mwy o ddefnydd o feiciau yn ôl rhyw. Dewisodd beicwyr benywaidd “llwybrau mwy uniongyrchol” fel y trydydd ffactor mwyaf poblogaidd (27.5%), ar ôl “rhagor o lwybrau i ffwrdd o draffig” a “llwybrau sydd wedi’u cynnal a’u cadw’n well”.
- “Rhagor o lwybrau i ffwrdd o draffig” (40.8%), “llwybrau sy’n cael eu cynnal a’u cadw’n well” (28.0%) a “Cyfleusterau storio beiciau diogel yn y gyrchfan” (24.4%) oedd y tri ffactor mwyaf cyffredin hefyd a fyddai’n annog defnyddwyr anabl i feicio’n amlach.

## Pobl nad ydynt yn feicwyr

- Ymatebodd 31.9% o'r rhai nad ydynt yn defnyddio beic na fyddai "dim un o'r ffactorau hyn" yn eu hannog i feicio. Nododd 23.6% pellach “nad ydynt yn gallu beicio fel dull teithio yn amlach"
- Nododd 23.2% o'r rhai nad ydynt yn defnyddio beic y byddai “rhagor o lwybrau i ffwrdd o draffig” yn eu hannog i feicio, gyda “llwybrau sydd wedi’u cynnal a’u cadw’n well” (15.1%) a “llai o draffig neu draffig arafach” (11.4%) hefyd yn ffactorau a ddewiswyd yn gyffredin.
- Roedd “Mynediad at gynlluniau llogi beiciau neu gymorth i brynu beic” yn llai cyffredin fel ffactor ymhlith y rhai nad ydynt yn defnyddio beic (11.1%) ac ymhlith beicwyr (17.7%), sy'n awgrymu nad yw mynediad yn rhwystr sylweddol i bobl rhag defnyddio beiciau.

## Beth fyddai'n annog pobl i deithio ar feic

Ffigur 2: Ffactorau a fyddai'n annog pobl sy'n defnyddio beic a phobl nad ydynt yn defnyddio beic i feicio, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar llorweddol yn dangos y ffactorau a fyddai'n annog defnyddwyr beic a phobl nad ydynt yn defnyddio beic i feicio'n amlach. Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr oedd "rhagor o lwybrau i ffwrdd o draffig" (50.3%), tra mai'r ymatebion mwyaf cyffredin i bobl nad ydynt yn feicwyr oedd "dim un o'r rhain" (31.9%) a methu â beicio'n amlach (23.6%).

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Nodweddion sy'n gysylltiedig â theithio'r ymatebwyr

Nodyn 1: Gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd cyfanswm y canrannau yn 100%..

Nodyn 2: Yn seiliedig ar amlder teithio a ddisgrifiwyd gan yr ymatebwyr, nodwyd 560 o unigolion fel defnyddwyr beic a nodwyd 2,430 fel rhai nad ydynt yn defnyddio beic.

# Ffactorau a fyddai'n annog defnyddio bysiau

## Defnyddwyr bysiau


- "Gwybodaeth well am lwybrau, safleoedd bws ac amseroedd gwasanaethau" (42.0%) oedd y ffactor a ddewiswyd amlaf a fyddai'n annog defnyddwyr i ddefnyddio'r bws yn amlach.
- Roedd "gwasanaethau amlach, gan gynnwys ar adegau tawelach o'r dydd" (34.4%), "Tocynnau rhatach, symlach" (34.0%) a "Dibynadwyedd a/neu brydlondeb gwell" (33.8%) hefyd yn ffactorau a ddewiswyd yn gyffredin ymhlith defnyddwyr.
- Ni chafodd ffactorau a fyddai'n annog teithiau amlfoddol eu dewis yn gyffredin gan ddefnyddwyr, gyda "chysylltiadau cerdded, olwynio neu feicio gwell â gwasanaethau bysiau" ac "integreiddio gwell â dulliau trafnidiaeth eraill" wedi'u dewis gan 4.0% a 0.1% o ddefnyddwyr yn y drefn honno.
- "Gwasanaethau amlach, gan gynnwys ar adegau tawelach o'r dydd" oedd y ffactor mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr bysiau anabl (42.2%).

## Pobl nad ydynt yn defnyddio bysiau

- Dewisodd 29.5% o'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr na fyddai'r un o'r ffactorau a restrir yn eu hannog i deithio ar fws.
- Ymhlith ffactorau eraill, atebodd y rhai nad oeddent yn defnyddio bysiau yn debyg i ddefnyddwyr bysiau. "Gwybodaeth well am lwybrau, safleoedd bws ac amseroedd gwasanaethau" (28.6%) a "thocynnau rhatach, symlach" (25.9%) oedd yr opsiynau eraill a ddewiswyd amlaf.

## Beth fyddai'n annog pobl i deithio ar y bws

Ffigur 3: Ffactorau a fyddai'n annog defnyddwyr a phobl nad ydynt yn ddefnyddwyr bysiau i deithio ar y bws, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar llorweddol yn dangos y ffactorau a fyddai'n annog defnyddwyr bysiau a phobl nad ydynt yn defnyddio bysiau i deithio ar y bws. Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr oedd "gwybodaeth well am lwybrau, safleoedd bws ac amseroedd gwasanaethau" (42.0%), tra mai'r ymatebion mwyaf cyffredin i bobl nad ydynt yn defnyddio bysiau oedd "dim un o'r rhain" (29.5%), ac yna "gwybodaeth well am lwybrau, safleoedd bws ac amseroedd gwasanaethau." (28.6%).

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Nodweddion sy'n gysylltiedig â theithio'r ymatebwyr

Nodyn 1: Gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd cyfanswm y canrannau yn 100%.

Nodyn 2: Yn seiliedig ar amlder teithio a ddisgrifiwyd gan yr ymatebwyr, nodwyd 1,525 o unigolion fel defnyddwyr bysiau a nodwyd 1,430 fel rhai nad ydynt yn defnyddio bysiau.

Nodyn 3: Ni ofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa wasanaeth bws na gweithredwr yr oeddent yn ei ddefnyddio.

# Ffactorau a fyddai'n annog pobl i ddefnyddio'r rheilffordd

## Defnyddwyr y rheilffordd


- "Tocynnau rhatach, symlach" oedd y ffactor a fyddai'n annog defnyddwyr y rheilffordd i deithio ar y rheilffordd yn amlach, a ddewiswyd gan 59.2% o ddefnyddwyr.
- Dewisodd 35.0% o ddefnyddwyr "dibynadwyedd gwell" fel ffactor a fyddai'n annog defnydd pellach, gyda 29.0% o ddefnyddwyr yn dewis "gwasanaethau amlach, gan gynnwys mwy o wasanaethau y tu allan i oriau brig".
- Yn wahanol i deithio ar fws, roedd datblygu "cysylltiadau gwell â gorsafoedd gan ddefnyddio bws, cerdded, olwynio a beicio" yn ffactor a fyddai'n annog defnydd ychwanegol i 18.1% o ddefnyddwyr y rheilffordd.
- Dywedodd 20.0% o ddefnyddwyr y rheilffordd sy'n anabl y byddai "trenau a gorsafoedd mwy hygyrch" yn eu hannog i deithio ar y rheilffordd yn amlach, o'i gymharu â 10.0% o ddefnyddwyr y rheilffordd nad ydynt yn anabl.

## Pobl nad ydynt yn defnyddio'r rheilffordd

- "Tocynnau rhatach, symlach" (38.7%) oedd y ffactor a ddewiswyd amlaf a fyddai'n annog pobl nad ydynt yn defnyddio'r rheilffordd i deithio ar y rheilffordd, gan ddangos thema gyffredin ymhlith defnyddwyr a phobl nad ydynt yn defnyddio'r rheilffordd.
- Fel gyda dulliau eraill, nododd cyfran fawr o'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rheilffordd (33.9%) na fyddai'r un o'r ffactorau a restrir yn eu hannog i deithio ar y rheilffordd.
- Dewiswyd "Gorsaf yn agosach at ble rwy'n byw" gan 19.8% o'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rheilffordd.

## Beth fyddai'n annog pobl i deithio ar y rheilffordd

Ffigur 4: Ffactorau a fyddai'n annog defnyddwyr a phobl nad ydynt yn ddefnyddwyr i deithio ar y rheilffordd, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart bar llorweddol yn dangos y ffactorau a fyddai'n annog defnyddwyr y rheilffordd a phobl nad ydynt yn ddefnyddwyr y rheilffordd i deithio ar y trên. Yr ymateb mwyaf cyffredin gan ddefnyddwyr a phobl nad ydynt yn ddefnyddwyr oedd "tocynnau rhatach, symlach" (59.2% a 38.7% yn y drefn honno).

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Nodweddion sy'n gysylltiedig â theithio'r ymatebwyr

Nodyn 1: Gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd cyfanswm y canrannau yn 100%

Nodyn 2: Yn seiliedig ar amlder teithio a ddisgrifiwyd gan yr ymatebwyr, nodwyd 1,930 o unigolion fel defnyddwyr y rheilffordd a nodwyd 1,080 fel rhai nad ydynt yn defnyddio'r rheilffordd.

Nodyn 3: Ni ofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa wasanaeth trên neu weithredwr yr oeddent yn ei ddefnyddio.


# Rhesymau pam roedd yr ymatebwyr yn teithio mewn car

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi teithio mewn car o leiaf unwaith bob cwpl o fisoedd pam eu bod wedi dewis teithio mewn car. Caniatawyd i ymatebwyr ddewis hyd at dri rheswm, felly efallai na fydd y canrannau'n cyfateb i 100%.

- Dewisodd 50.1% o'r ymatebwyr a deithiodd mewn car wneud hynny oherwydd mai dyna'r llwybr mwyaf uniongyrchol.
- Dewisodd 37.5% deithio mewn car gan eu bod yn teimlo y byddai'n opsiwn mwy dibynadwy, a dewisodd 34.3% deithio mewn car gan mai dyna'r opsiwn rhataf oedd ar gael.
- Y tri opsiwn hyn oedd y rhesymau mwyaf cyffredin i ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd, ac i ymatebwyr anabl a'r rhai nad ydynt yn anabl.

## Pam mae pobl yn dewis teithio mewn car

Ffigur 5: Rhesymau dros ddewis teithio mewn car, Cymru, 2025



Disgrifiad o Ffigur 5: Siart bar llorweddol yn dangos y ffactorau a benderfynodd pam roedd ymatebydd yn teithio mewn car. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd “y llwybr mwyaf uniongyrchol” (50.1%)

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho’r data: Nodweddion sy'n gysylltiedig â theithio'r ymatebwyr

Nodyn 1: Gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd cyfanswm y canrannau yn 100%.

Nodyn 2: Yn seiliedig ar amlder teithio a ddisgrifiwyd gan yr ymatebwyr, gofynnwyd y cwestiwn hwn i 2,855 o ymatebwyr.